YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

02 Mai 2025

Annwyl Riant / Warcheidwad,



**Croeso Nôl!** Gobeithiwn eich bod wedi cael seibiant dros y Pasg a rydym yn hapus i groesawu'r holl ddisgyblion yn ôl ar gyfer tymor lwyddiannus arall. Diolch yn fawr iawn i'n tîm ystadau am eu holl waith caled dros y gwyliau yn addasu ystafelloedd dysgu a labordai TGCh.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a chyngerdd arbennig**: Dymuniadau gorau i bawb fydd yn cystadlu dros wyliau hanner tymor yn Eisteddfod Dur a Môr, yr Urdd. Pob lwc i bawb o deulu Glantaf sy'n cymryd rhan a mwynhewch eich profiad ar y llwyfan mawr! Llongyfarchiadau i'r rhai o Lantaf sydd wedi rhagori yn y tasgau Celf a Dylunio a Gwaith Cartref – gobeithiwn sôn am rhain yn ein cylchlythyr nesaf! Cofiwch bod tocynnau cynnar pris isel ar gael yma hyd at Mai y 9fed a bydd disgyblion sy'n cystadlu yn derbyn gwybodaeth am eu tocynnau yn fuan.

**Cyngerdd yr Eisteddfod** - Cynhelir cyngerdd yn neuadd yr ysgol ar ddydd Iau yr 22ain o Fai am 5pm, i ddathlu pawb sy'n cystadlu yn Eisteddfod Dur a Môr. Mae tocynnau ar gael ar Parent Pay. Bydd amrywiaeth o berfformiadau gan ddisgyblion Y Ganolfan, Côr Gwerin, Partion Cerdd Dant, y Côr Bechgyn Iau a Hŷn, yn ogystal ag unawdau offerynnol, lleisiol a deuawdau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn sicrhau'r tocynnau hynny!




**Cwricwlwm Iechyd a Lles** - Mae Iechyd a Lles yn hanfodol i sicrhau cynnydd academaidd yn ogystal â lles cymdeithasol ac emosiynol ein disgyblion. Ochr yn ochr âg Iechyd a Lles a addysgir ar draws yr holl bynciau o fewn eu cwricwlwm, mae disgyblion yn cael dwy wers lles bob pythefnos. Mae eu gwers cyntaf o fewn eu dosbarth cofrestru o dan arweiniad eu tiwtor personol mewn rhaglen fugeiliol sy'n ymateb i anghenion ac yn addas i oedran y disgyblion. Addysgir yr ail wers o fewn y gwahanol Feysydd Dysgu gan athrawon arbenigol yn canolbwyntio ar faterion Iechyd a lles sy'n berthnasol i'w harbenigedd. Rydym hefyd yn ffodus iawn i weithio ochr yn ochr ag elusen, o'r enw, Brook sydd wedi cyflwyno gweithdai gwerthfawr yn trafod urddas misglwyf, cyflwyniad i iechyd rhywiol a chydsynio i nifer o'n disgyblion eleni.

**Dyfais un-i-un Bl7**: Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth i ymestyn y cynllun hwn fydd yn cynnig dyfais Chromelyfr i bob disgybl ym Ml 7 wrth iddynt symud i Flwyddyn 8. Mae'r cyfraniad cyntaf o £40 bellach ar Parent Pay. Gofynnwn yn garedig i hwn gael ei dalu erbyn dechrau Mehefin.

**Gweithdy Tecstilau Blwyddyn 7**: Diolch yn fawr iawn i'n 'hathrawon' blwyddyn 7 a fu'n arwain gweithdy creadigol yn ddiweddar gyda disgyblion Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Pwll Coch. Cynhyrchwyd darnau gwych o waith yn dan arweiniad ein disgyblion dawnus. Diolch Pwll Coch am y croeso cynnes.

**Cystadleuaeth gelf ysgol gyfan**: Dyma gyfle i ennill pwyntiau i'ch Llys! Mae gan ddisgyblion tan ddiwedd yr hanner tymor i gynhyrchu darn o gelf ar y thema 'Teulu Glantaf'. Bydd enillydd ein cystadleuaeth celf yn cael fersiwn o'u gwaith celf fel murlun ar un o goridorau yma yng Nglantaf. Bydd mwy o fanylion yn cael ei rannu gyda disgyblion yr wythnos nesaf.

**Arholiadau Mewnol Blwyddyn 7-9**: Bydd pob disgybl ym Mlynyddoedd 7,8 a 9 yn sefyll arholiadau diwedd blwyddyn yn eu pynciau craidd. Cynhelir y rhain yn ystod wythnos 12-16 Mai. Bydd y rhain yn digwydd yn eu dosbarth cofrestru ac yn cael eu cynnal yn ystod gwers 1 bob bore. Mae'r amserlen gyferbyn. Sicrhewch fod gennych yr offer cywir ar gyfer pob arholiad. Mae rhagor o fanylion am bob pwnc ar Siartiau Dosbarth/Google Classrooms. Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon erbyn 8.30am.




**Noson Rhieni Blwyddyn 7**: Bydd hyn yn digwydd nos Iau, Mai 8fed 3.15-6.30pm. Dylech fod wedi derbyn y wybodaeth berthnasol ar Classcharts. Gofynwn i'ch plentyn drefnu apwyntiadau gyda'u hathrawon. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yma i Lantaf.

**Coron Gwlad Bl 7 Parc Treftadaeth Cwm Rhondda:** Bydd blwyddyn 7, fel rhan o'u gwersi Cymraeg / Coron Gwlad, yn mynychu ymweliad addysgol â Pharc Treftadaeth Cwm Rhondda y mis hwn. Bydd y Profiad Mwyngloddio Cymreig hwn yn gysylltiedig ag uned waith y tymor. Byddant yn astudio "*Pit to Port*", gan ddechrau gyda'r ymweliad hwn, ac yn gorffen gydag ymweliad â Bae Caerdydd ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Bydd eich plentyn yn profi bywyd y glowyr ar daith dywys o dan y ddaear o amgylch Glofa Lewis Merthyr, a fydd yn cael ei harwain gan gyn-löwr. Bydd y daith i Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda yn cynnwys tri gweithgaredd; Taith yr Aur Du, Taith Tramffordd a Gweithdy Crefft Calonnau. Mae'r Parc yn cynnig cipolwg ar fywyd y gymuned lofaol a fodolai yn yr ardal hyd at yr 1980au. Amserlen i ddilyn.

**Clwb Mandarin Blwyddyn 10**: Cynhelir clwb Mandarin newydd yr hanner tymor nesaf ar ôl ysgol drwy gynllun a weithredir gan Brifysgol Caerdydd mewn partneriaeth â Phrifysgol yn Tsieina. Byddwn yn hysbysebu'r manylion ar Siartiau Dosbarth maes o law.

**Diwrnodau Gadael ac Arholiadau Allanol Blwyddyn 11 12, 13**: Nodyn i'ch atgoffa o'r dyddiadau pwysig hyn: Bl. 11 - Dydd Mercher, Mai 7fed; Blwyddyn. 12 – Gwener, Mai 9fed a Blwyddyn. 13, dydd Gwener, Mai 16eg. Cynhelir Gwasanaeth Ffarwel i Flwyddyn 13 ar Ddydd Gwener Mai 16eg am 1.30yp ac rydym yn gwahodd rhieni i ymuno â ni ar y diwrnod arbennig hwn.

**Arholiadau ac Asesiadau Personol**: Fel y gwyddoch bydd TGAU a Safon UG yn cychwyn yr wythnos nesaf, a dymunwn yn dda i'n holl ddysgwyr yn eu gwaith a'u hadolygu. Dylai disgyblion gyrraedd yn brydlon ar gyfer arholiadau a chofio offer allweddol ar gyfer pob arholiad. Rydym hefyd am atgoffa rhieni y bydd y profion darllen a rhifedd cenedlaethol yn cael eu cynnal ar gyfer holl ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 yn y cyfnod 2 – 13 Mehefin.

Yn gywir,

Siwan Lee
Uwch Athro
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



*Timau Rygbi Merched 7 Bob Ochr Bl7*



*Pedair Tlws Cenedlaethol: Timau Bl 8, 11 a dan 18: Rygbi 7 Bob Ochr yr Urdd*